**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**28 IONAWR 2020**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mawrth, 28 Ionawr, 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Paul Cunningham, Jean Davies, Robert Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tim Roberts, Kevin Rush, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, Patrick Heesom, Rita Johnson, Tony Sharps ac Aaron Shotton.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr, Uwch Gyfreithiwr a Dirprwy Swyddog Monitro, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwyr Cyllid, Rheolwr Refeniw, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Pwyllgorau.

## 86. TEYRNGED I'R DIWEDDAR PETER EVANS, CYN REOLWR DEMOCRATIAETH A LLYWODRAETHU

Talodd Aelodau'r Siambr deyrnged i'r diweddar Peter Evans, y Cyn Rheolwr Democratiaeth a Llywodraethu. Bu sylwadau ar y ffordd y roedd yn gweithio, gydag urddas a pharch, ac roedd yn ased i Gyngor Sir y Fflint a'r hen Gyngor Bwrdeistref Delyn. Roedd o hyd yn rhoi cyngor da i Aelodau, yn enwedig yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio. Fe wnaethant sylw ar ei synnwyr o ddigrifiwch unigryw, a'r nodweddion oedd yn gwneud Peter yn ŵr bonheddig go iawn. Bydd gweld colled mawr ar ei ôl, ond bydd pawb yn ei gofio gydag anwyldeb.

Talodd y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Swyddog Monitro eu teyrngedau i Mr Evans, ei agwedd bositif, uniondeb, cyfeillgarwch a'r gefnogaeth a rhoddodd.

## 87. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

## 88. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr Aelodau canlynol eu cysylltiad personol:

Cynghorwyr Axworthy, Bibby, Dunbobbin, David Healey, Gladys Healey, Dennis Hutchinson, Paul Johnson a McGuill – eitem rhaglen rhif 9 – Rhaglen Gyfalaf 2020/21 – 2022/23.

Cynghorwyr Palmer ac White – eitem rhaglen rhif 11 - Cynllun Busnes 30 Blynedd y Cyfrif Refeniw Tai (HRA).

Cynghorwyr Chris Dolphin a Rosetta Dolphin a'r Cynghorydd White – eitem rhaglen rhif 15 – Rhybudd o Gynnig.

## 89. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Wrth gyflwyno ei chyhoeddiadau, a oedd wedi cael eu rhannu cyn y cyfarfod, amlygodd y Cadeirydd nifer o ddigwyddiadau, gan dynnu sylw penodol at y pantomeim yng Nghanolfan Dewi Sant, Errys, a Gwasanaeth Carolau Nadolig Maer Treffynnon.

## 90. DEISEBAU

Dim.

## 91. CROESO I'R CYNGHORYDD TIM ROBERTS

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Tim Roberts yn dilyn cael ei ethol yn is-etholiad Trelawnyd a Gwaenysgor ar 12 Rhagfyr, 2019. Ymatebodd y Cynghorydd Roberts yn briodol.

## 92. CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2020/21 – CAM DAU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2020/21 a oedd yn nodi'r strategaeth ar gyfer cyrraedd cyllideb gyfreithiol a chytbwys. Roedd y Setliad Dros Dro allan i ymgynghoriad cyhoeddus a byddai'n cael ei derfynu ar 25 Chwefror cyn cymeradwyaeth Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r adroddiad yn trafod:

- Y rhagolwg ariannol lleol diweddaraf ar gyfer 2020/21;
- Crynodeb o waith cam un y gyllideb;
- Asesiad o'r Setliad Dros Dro a'r effeithiau a'r goblygiadau i'r Cyngor;
- Y gwaith sy'n cael ei wneud ar yr ystod o ddewisiadau lleol ar gam dau i gyfrannu tuag at gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21;
- Y risgiau agored a oedd angen eu hystyried wrth osod y gyllideb; a
- Y camau i gau'r gyllideb a'r gwaith parhaus ar gyfer y tymor canolig.

Cynghorodd yr adroddiad bod graddfa uchel o hyder y byddai cyllideb gyfreithiol a chytbwys yn cael ei argymell i'r Cyngor yn y cyfarfod ar 18 Chwefror. Trefnwyd cyfarfod arbennig o Arweinwyr Grŵp i'w gynnal cyn Cyfarfod y Cyngor.

Ers y cyfarfod diwethaf ym mis Rhagfyr, effaith y newidiadau diweddar oedd cynyddu bwlch y gyllideb i fodloni gofyniad y gwariant ar gyfer 2020/21 o £0.181 miliwn i £16.355 miliwn.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion llawn ar y Setliad Dros Dro, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Esboniodd bod yr AEF dros dro (Grant Cefnogi Refeniw a chyfran o Gronfa Cyfraddau Cenedlaethol) ar gyfer 2020/21 yn £199.386 miliwn, wrth gymharu â'r ffigwr diwygiedig 2019/20 o £192.212 miliwn a oedd yn cynrychioli cynnydd o 3.7%. Cynnydd Cymru gyfan ar gyfartaledd oedd 4.3%.  Mae'r dyraniad dros dro yn cynrychioli cynnydd ariannol o £10.406 miliwn dros ddyraniad 2019/20 o £188.980 miliwn.

Roedd tri throsglwyddiad i'r Setliad:

- Grant Pensiwn Athrawon (£1.978 miliwn);
- Gofal Nyrsio (£0.081 miliwn); a
- Cyflog Athrawon (£0.608 miliwn).

Nid oes cyllid ychwanegol wedi'i gadarnhau ar y cam hwn i gefnogi cyllid 'gwaelodol'. Mae cyllid gwaelodol yn lefel sicr o nawdd i gynghorau a ddaeth o dan y newid yng nghyfartaledd Cymru gyfan yn y Setliad blynyddol. Roedd lefel waelodol yn nodwedd o'r Setliad am sawl blwyddyn. Oherwydd yr amrywiadau yn y cynnydd blynyddol o gyngor i gyngor, galwyd am lefel waelodol gan nifer o gynghorau. Os caiff ei gymeradwyo, byddai'n cael ei noddi gan Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r swm a oedd wedi ei fuddsoddi yn y Setliad ar gyfer 2020/21 hyd yma. Fe wnaeth grŵp o Arweinwyr Gogledd Cymru'r achos i osod lefel waelodol ar 4%. Os yw'n cael ei gymeradwyo, byddai hynny'n gwella safle Sir y Fflint o 0.3%. Fe gefnogodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) y galw am lefel waelodol hefyd. Roedd disgwyl penderfyniad ac ni ellir tybio ar y cam hwn, cyn i'r gyllideb gael ei therfynu a'i chymeradwyo gan LlC.

Roedd manylion grantiau penodol i'w dyfarnu wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.  Byddai'r rhan fwyaf o grantiau ar yr un lefel â 2019/20, neu'n cael eu cynyddu ar gyfer chwyddiant.  Byddai sawl cynnydd sylweddol i grantiau penodol o fewn Addysg a Gofal Cymdeithasol. Roedd y dyraniadau manwl ar gyfer Sir y Fflint yn anhysbys, gan gynnwys a fyddai telerau ac amodau'r grant yn ddigon hyblyg i'r Cyngor allu dyrannu arian yn erbyn gwariant cyllideb a gynlluniwyd i helpu gyda chau bwlch y gyllideb sy'n weddill - byddai manylion pellach ar gael yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Chwefror.

Roedd effaith blwyddyn lawn o Gyfraniadau Cyflogwr Pensiynau Athrawon yn gynnydd o £3.391 miliwn a byddai angen eu cynnwys yng nghyfrifiadau'r gyllideb a bodloni cynnydd yn y nawdd a dderbyniwyd yn y Setliad. Nid oedd y pwysau hwnnw ar gostau wedi cael ei ariannu yn y tarddiad gyda chyllidebau sylfaenol y Llywodraeth fel yr ofynnwyd.  O ran cyflog athrawon, roedd y costau ychwanegol a ysgwyddir yn 2019/20 o'r dyfarniad cyflog blynyddol yn effeithiol o fis Medi 2018 wedi cael ei ariannu'n rhannol gan un grant penodol gan LC. Gwnaed y grant hwnnw ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yn unig, ac nid oedd wedi ei osod i'w barhau i 2020/21. Byddai angen cynnwys £0.375 miliwn yng nghyfrifiadau'r gyllideb, ac i'w fodloni gan y cynnydd. Nid oedd y pwysau costau wedi cael ei noddi yn y tarddiad o fewn cyllidebau sylfaenol y

Llywodraethau. Roedd y dewis yn parhau i rannu baich y costau gydag ysgolion, fel cyflogwyr athrawon, yn safle i ddisgyn yn ôl arno. Mae swm o £0.081 miliwn ar gyfer Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu wedi cael ei drosglwyddo i'r Setliad ar gyfer gofal nyrsio wedi'i ariannu, a oedd yn gyfrifoldeb yn y gorffennol i'r Bwrdd Iechyd, ond oedd wedi cael ei drosglwyddo i'r Cyngor.

Darparwyd manylion hefyd o'r gwaith sy'n parhau ar ystod gyfyngedig o ddatrysiadau lleol i gyfrannu at gau bwlch y gyllideb ynghyd â'r cyfraniad a wnaed gan Setliad Llywodraeth Leol gwell. Roedd 'rhain yn cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr, comisiynu gofal cymdeithasol a disgownt person sengl – adolygiad o hawl.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai buddion ychwanegol yn y Setliad, ond byddai angen eu hychwanegu i'r gronfa wrth gefn i fodloni'r risgiau o fewn y flwyddyn, fel yr amlinellwyd.  Rhoddodd fanylion o'r amserlen ar gyfer camau olaf y broses o osod y gyllideb flynyddol, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Ychwanegodd bod adolygiad llawn o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar waith, a fyddai'n nodi rhagolygon y gyllideb a'r gofynion ar gyfer 2022/23- 2023/24. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei adrodd i Aelodau ar ddechrau'r haf gyda ymgysylltiad cynnar wedi'i gynllunio mewn cyfres o weithdai.

Cynigodd y Cynghorydd Roberts yr argymhellion a diolchodd i bob Aelod o'r Cyngor am y ffordd yr aethpwyd ati i osod y gyllideb, gan gynnwys gwaith y gweithgor trawsbleidiol a oedd yn sail i nifer o gyflwyniadau CLlLC i Lywodraeth Cymru. Adroddwyd y gyllideb i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a ni chafwyd cynigion pellach yn dilyn y cyfarfodydd hynny. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith ar y gyllideb a'r gwaith parhaus ar y datrysiadau lleol; diolchodd bawb hefyd oedd wedi eu cynnwys yn y gwaith a wnaed ar adolygiad gwirioneddol o Gronfa Bensiynau Clwyd. Diolchodd LlC am y gwelliant i'r Setliad, yn ogystal â Llywodraeth y DU am ddarparu Setliad gwell i LC. Cefnogodd y cais am gyllid 'gwaelodol' a gefnogwyd hefyd gan Arweinwyr Gogledd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).  Roedd risgiau sylweddol o hyd i'r gyllideb, cyfraniadau pensiynau athrawon a dyfarniad cyflog athrawon yn benodol, a dywedodd mai pwy bynnag sy'n cyhoeddi'r cynnydd ddylai ariannu'r cynnydd.

Bwriad y Cabinet oedd cynnig cynnydd o lai na 5% i Dreth y Cyngor.

Eiliodd y Cynghorydd Banks yr argymhellion. Talodd deyrnged i dalwyr treth y cyngor yn Sir y Fflint, a oedd wedi sefyll gyda'r Cyngor yn ei frwydr i warchod y gwasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, nid oedd disgwyl parhaus iddynt dalu diffyg y setliad o arian Llywodraeth y DU. Galwodd am ragolwg tair blynedd gan LC i helpu gyda rhoi sefydlogrwydd a chynnig cymorth i'r Cyngor gyda chynllunio tymor hir.

Roedd y Cynghorydd Peers yn croesawu'r cydweithio a ddangoswyd wrth weithio ar y gyllideb. Fe wnaeth sylw ar yr adroddiad, lle y nodwyd *'efallai bydd LlC yn ariannu'r dyfarniad cyflog athrawon nesaf yn llawn'* ac ailadrodd sylwadau'r arweinydd bod LlC wedi cyhoeddi'r dyfarniad, ond nid ydynt yn darparu'r arian ar ei gyfer. O ran y £10.406 miliwn ychwanegol y byddai Sir y Fflint yn ei dderbyn, unwaith y byddai cyflogau athrawon a chyfraniadau pensiynau athrawon y cyflogwr wedi cael eu tynnu o'r ffigwr hwnnw, roedd wedi

gostwng o £3.76 miliwn, i gynnydd gwirioneddol o £6.54 miliwn, felly nid oedd yn gynnydd o 3.7%. Disgwyliwyd y byddai cyflog athrawon a chyfraniadau pensiynau athrawon y cyflogwr yn cael eu hariannu'n llawn gan LC. Gwnaeth sylw ar adran yr adroddiad a oedd yn nodi nad oedd gan y Cyngor ddewis yn y gorffennol ond i osod Treth y Cyngor ar lefel uwch na'r hynny a gynlluniwyd yn y ddwy flynedd blaenorol, a dywedodd mai dyma'r unig ffordd i gydbwyso'r gyllideb oherwydd y diffyg nawdd gan LC.

O ran Treth y Cyngor, dywedodd bod LlC wedi gosod canllawiau ar gynnydd cyfartalog o 7.1% ar draws Cymru fel rhan o'i gyfrifiadau ar y gyllideb am nawdd digonol ar gyfer llywodraeth leol, a chwestiynwyd ai strategaeth LlC oedd rhoi baich ychwanegol ar y trethdalwr. Croesawodd y nawdd o ganlyniad i'r adolygiad actiwaraidd o Gronfa Bensiynau Clwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones bod Llywodraeth y DU wedi rhoi £592 miliwn i LC, ac roedd Sir y Fflint yn disgwyl 2%, a oedd yn £12 miliwn ac nid £10.406 miliwn. Ailadroddodd ei sylwadau blaenorol bod disgwyl i LC dalu am gyflogau athrawon a chyfraniadau pensiynau athrawon y cyflogwr, nad oedd wedi digwydd. Dywedodd na chafwyd cyfarfod ffurfiol rhwng arweinwyr Gogledd Cymru a'r Gweinidog, ac ni wnaed newidiadau i fformiwla'r nawdd. Yn ei farn o, roedd Llywodraeth y DU wedi gwneud beth oedd disgwyl iddynt wneud, ond bod LlC heb.

Siaradodd am y sylwadau ar eitem y gyllideb o gyfarfod y Cyngor Sir ym mis Rhagfyr, pan nododd yr Arweinydd nad oedd yn dymuno gweld cynnydd Treth y Cyngor uwchben 5%, ac nid oedd am i bwysau costau gael eu rhannu gyda chyflog athrawon a chyfraniadau pensiwn. Mewn ymateb i sylw ar y nifer o gronfeydd newydd ar gael i helpu gyda chydbwyso'r gyllideb o £6.54 miliwn, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y mai £6.646 miliwn y dylai'r ffigwr fod. Gofynnodd y Cynghorydd Jones am gadarnhad bod y 0.3% ychwanegol o gyllid gwaelodol ar gyfer safle Sir y Fflint yn gweld gwelliant o £580 mil, a roddwyd. Roedd yn cytuno gyda'r sylwadau blaenorol na fyddai disgwyl i breswylwyr lleol barhau i noddi'r bwlch yn y gyllideb drwy gynnydd sylweddol i Dreth y Cyngor.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai data dadansoddi Treth y Cyngor yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Sir, gan gynnwys cymariaethau gydag awdurdodau lleol eraill.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ail nodi rhagolygon y gyllideb ar gyfer 2020/21, yn ogystal â nodi'r risgiau agored a oedd angen eu hystyried wrth osod y gyllideb;

(b) Nodi effeithiau a goblygiadau Setliad Cyllideb Dros Dro y Llywodraeth Leol;

(c) Nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y dewisiadau lleol sy'n weddill i gyfrannu at gyrraedd cyllideb gytbwys ar gyfer 2020/21;

(d) Yn ôl cyngor proffesiynol, yn seiliedig ar y strategaeth ariannol yr ydym wedi bod yn gweithio arni i gael ei nodi, bod graddfa uchel o hyder y gellir argymell cyllideb gyfreithiol a chytbwys i'r Cyngor ar 18 Chwefror; a

(e) Bod adroddiad llawn a therfynol gydag argymhellion i osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys yn cael ei adrodd i gyfarfod y Cyngor ar 18 Chwefror.

**93. <u>RHAGLEN GYFALAF 2020/21 – 2022/23</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad y Rhaglen Gyfalaf 2020/21 - 2022/23 a oedd yn trafod buddsoddiadau mewn asedau ar gyfer y tymor hir i alluogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel gyda gwerth am arian.

Mae asedau'n cynnwys adeiladau megis ysgolion a chartrefi gofal, isadeiledd megis priffyrdd, rhwydweithiau TG a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff, ac asedau nad ydynt yn perthyn i'r Cyngor megis gwaith i wella ac addasu cartrefi'r sector preifat. Mae'r buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig a amlinellir yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â chynlluniau gwasanaethau a Chynllun y Cyngor.

Mae gan y Cyngor adnoddau cyfalaf cyfyngedig o du Llywodraeth Cymru i gefnogi blaenoriaethau, anghenion ac atebolrwyddau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae ganddo bwerau i ariannu cynlluniau cyfalaf drwy fenthyg; roedd hyn yn gynllun dros dro, ac roedd cost ac ad-daliad unrhyw fenthyciad yn cael ei godi ar gyllideb refeniw'r Cyngor. Ystyriwyd cynlluniau a oedd yn cael eu hariannu drwy fenthyca yn ofalus oherwydd effeithiau hirdymor ar gyllideb refeniw'r Cyngor.

Rhannwyd adroddiad Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor i dri adran:

1. Statudol / Rheoleiddiol – dyraniadau i fodloni gwaith rheoleiddiol a statudol;
2. Asedau wedi eu Cadw – dyraniadau i ariannu gwaith seilwaith angenrheidiol i sicrhau parhad gwasanaeth a busnes; a
3. Buddsoddiad – dyraniadau i ariannu'r gwaith angenrheidiol i ailfodelu gwasanaethau i gyflwyno'r arbedion effeithlonrwydd yr amlinellwyd yn y cynllun busnes Portffolio a buddsoddi mewn gwasanaethau fel yr amlinellwyd yng Nghynllun y Cyngor.

Darparodd y Prif Swyddog fanylion o bob tabl o fewn yr adroddiad a oedd yn cael eu cefnogi gan esboniadau ar bob un.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Healey, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod y gwaith ar Ysgol Uwchradd Castell Alun ar gyfer estyniad tri llawr, ac nid dau, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Roberts argymhellion yr adroddiad gan gyfeirio at y cyfleoedd cyffrous yr amlinellwyd yn y Rhaglen Gyfalaf. Dywedodd bod hyn yn dangos bod y Cyngor yn bod yn uchelgeisiol ac yn dangos beth oedd amcanion y Cyngor. Gwnaeth sylw yn benodol at brosiect canolfan ddydd oedolion Hwb Cyfle, a oedd wedi agor yn ddiweddar yn Queensferry,

buddsoddiad yng Nghartref Preswyl Marleyfield ym Mwcle, a’r cynigion ar gyfer sawl ysgol ar draws y sir.

Eiliodd y Cynghorydd Banks argymhellion yr adroddiad, ac roedd yn eu croesawu, cynlluniau llai yn benodol megis rhoi wyneb newydd ar gae bob tywydd Ysgol Uwchradd Elfed, a chynllun Menter Bwyd Sir y Fflint.

Roedd y Cynghorydd Peers yn croesawu’r adroddiad hefyd, sy'n nodi cynlluniau ar draws y sir. Fe wnaeth sylw ar adnoddau cyfalaf cyfyngedig y Cyngor, ac roedd yn teimlo bod angen tynnu sylw LlC at hyn. O ran gwaith adeiladu ysgolion, gofynnodd a oedd y gyllideb £1.5 miliwn ar gyfer toiledau mewn ysgolion yn rhan o'r rhaglen 15 mlynedd oherwydd bod yr adroddiad yn nodi £100 mil y flwyddyn. O ran gwelliannau i Iard Safonol y Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff, roedd yn gobeithio y gellir arbed arian ar y cynllun hwn, gan y penderfynwyd nad oedd angen y ffordd newydd a nodwyd yn wreiddiol.

O ran y cyfleuster archifau ar y cyd, gofynnwyd a oedd perchnogaeth ar sail 50:50 gyda Sir Ddinbych oherwydd nid oedd y cyllid yn gytbwys. O ran campws Neuadd y Dref, gofynnodd am fanylion ar beth oedd y potensial enfawr ar gyfer y safle, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, oherwydd nid oedd manylion yn adran derbyniadau cyfalaf yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr angen ar gyfer Cyfalaf ychwanegol yn cael ei drafod yn rheolaidd gyda LlC. O ran toiledau ysgolion, byddai angen trafodaeth heriol ar sut i fynd i’r afael â’r gwaith sydd angen ei wneud ar ysgolion. O ran y cyfleuster archifau ar y cyd – byddai'r datblygiad ar dir Sir y Fflint ac ni fyddai trefniadau cyllid yn gymesur i faint y Cynghorau, eu cyllidebau a'r boblogaeth leol. Ni fyddai Derbyniadau Cyfalaf yn dangos hyd yma ar gyfer Neuadd y Dref oherwydd ni chytunwyd ar uwchgynllun tymor hir eto.

Esboniodd y Prif Swyddog bod gwaith dylunio yn parhau ar y gwelliannau i Iard Safonol y Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff a byddai unrhyw arbedion sy’n cael eu cyflawni yn mynd yn ôl i’r Rhaglen Gyfalaf i’w ddefnyddio ar gyfer cynlluniau eraill. O ran toiledau, byddai rhai cynlluniau’n cael eu trin drwy raglen moderneiddio ysgolion neu’n cael eu hymgorffori o fewn rhaglenni ailwampio eraill.

Roedd y Cynghorydd Richard Jones yn croesawu’r gwaith ar Gastell Alun a Chartref Preswyl Marleyfield. O ran ysgolion, gofynnodd a oedd y cynlluniau yn y Strategaeth yn rhan o strategaeth ehangach i ddiddymu ystafelloedd dosbarth symudol.

O ran benthyca ddarbodus ar gyfer y Fargen Dwf, gofynnodd beth fyddai cost y fenthyca, a theimlodd bod hyn yn rhywbeth y gellir ei drafod yng nghyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn y dyfodol. Cynghorodd y Prif Weithredwr o ran y Fargen Dwf, y byddai’n annhebygol bod benthyca darbodus ar gael nes y blynyddoedd i ddod, a byddai'r manylion yn cael eu trafod yn llawn maes o law.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jones ar gost benthyca ddarbodus, esboniodd y Rheolwr Ariannol bod y manylion llawn wedi cael eu darparu yn adran Goblygiadau o Ran Adnoddau'r adroddiad.

Croesawodd y Cynghorydd Palmer yr adroddiad gan wneud sylw ar yr effaith a gafodd y rhaglenni cyfalaf ar gymunedau, megis ail-agor stryd fawr Treffynnon a oedd wedi cael effaith gadarnhaol.

Diolchodd y Cynghorydd Rush y Cyngor am y buddsoddiad a wnaed yn Ysgol Glan Aber ym Magillt, a fydd o fudd mawr i bawb.

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill pwy oedd yn arwain ar Fenter Bwyd Sir y Fflint a lle mae lleoliadau'r hwb. Esboniodd y Prif Swyddog bod y cynllun yn un ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint, Tai Clwyd Alyn a Can Cook, a bod yr canolbwyntiau wedi eu lleoli ar draws Sir y Fflint, gyda rhai yng Nghartrefi Gofal Clwyd Alyn. Roedd yn Swyddog arweiniol ar gyfer y cynllun yn Sir y Fflint.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Carver ar yr allbwn ynni yn hen safleoedd tirlenwi ym Mwcle, dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y byddai'n darparu manylion i'r Aelodau.

Diolchodd y Cynghorydd Dunbar i swyddogion ac Aelodau'r Cabinet Strydwedd a Chludiant ar gyfer y datrysiad cyflym i'r maes parcio ym Mharc Gwepra. Mynegodd y Cynghorydd Dunbobbin ei ddiolch ar gyfer y gwaith moderneiddio a wnaed yn Ysgol Uwchradd Cei Connah.

Gofynnodd y Cynghorydd Ellis am eglurhad ar y geiriad canlynol mewn perthynas â Theatr Clwyd 'efallai bydd angen ystyried lefelau isel a chynaliadwy o fenthyca tymor hir i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflwyno, ond bydd angen amlinellu dewisiadau ar gyfer refeniw pan mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau eu lefel o gefnogaeth'. Esboniodd y Prif Weithredwr bod hyn yn brosiect gydag amcangyfrif presennol o £35 miliwn; a bu cais ffurfiol am £25 miliwn gan LC, a £5 miliwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Roedd hynny'n gadael amcangyfrif o £5 miliwn. Roedd symiau sylweddol o roddion elusennol a oedd ar gael i helpu gyda lleihau'r gost i'r Cyngor.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y dyraniadau a chynlluniau yn Nhabl 3 o'r adroddiad ar gyfer rhannau Statudol / Rheoleiddiol ac Asedau Wrth Gefn y Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2020/21 - 2022/23 yn cael eu cymeradwyo;

(b) Bod y cynlluniau wedi'u cynnwys yn Nhabl 4 ar gyfer adran Buddsoddi y Rhaglen Gyfalaf Cronfa'r Cyngor 2020/21 - 2022/23 yn cael eu cymeradwyo;

(c) Dylid nodi bod y diffyg mewn cyllid i ariannu ar hyn o bryd yn y broses gymeradwyo cynlluniau yn 2020/21 a 2021/22 yn hyblyg. Bydd opsiynau gan gynnwys cyfuniad o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol, grantiau eraill (os ydynt ar gael), benthyca darbodus neu gynlluniau fesul cam dros nifer o flynyddoedd yn cael eu hystyried yn ystod 2020/21, ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau Rhaglen Gyfalaf yn y dyfodol.

**94. STRATEGAETH GYFALAF YN CYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS 2020/21 - 2022/23**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y Strategaeth Gyfalaf gan gynnwys adroddiad Dangosyddion Darbodus 2020/21 hyd at 2022/23, i gynnwys pan bod angen Strategaeth, ei amcanion allweddol a chynnwys bob un o'i adrannau.

Cynigiodd y Cynghorydd Banks gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Mullin.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Peers, esboniodd y Prif Weithredwr nad oedd gan y Cyngor unrhyw gynlluniau ariannu preifat.

Ar ôl eu rhoi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Strategaeth Gyfalaf yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod y canlynol yn cael eu cymeradwyo:
- Y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2020/21 – 2022/23 fel y manylir o fewn Tablau 1, a 4 – 7 gan eu cynnwys, o'r Strategaeth Gyfalaf; ac
- Awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol i achosi symudiadau rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân o fewn y terfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol (Tabl 6 y Strategaeth Gyfalaf).

**95. CYNLLUN BUSNES ARIANNOL 30 BLYNEDD Y CYFRIF REFENIW TAI (HRA)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a'r Rheolwr Cyllid Strategol – Masnachol a Thai, Gynllun Busnes Ariannol 30 Blynedd y Cyfrif Refeniw Tai, a oedd yn cynnwys cynnydd arfaethedig i rhent, a ystyriwyd yng Nghabinet ar 21 Ionawr, 2020.

Rhoddwyd cyflwyniad a oedd yn trafod:

- Cynllun Busnes 30 mlynedd;
- Polisi Rhenti Llywodraeth Cymru 2020/21;
- Cynnydd Arfaethedig i Rent 2020/21;
- Incwm Arall;
- Taliadau Gwasanaeth 2020/21;
- Arbedion Effeithlonrwydd Refeniw;
- Pwysau ar Refeniw;
- Darparu'r Rhaglen Gyfalaf;
- Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2020/21;
- Cyllid Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21;
- Y Cyfrif Refeniw Tai – Ystyried Gwerth am Arian; a
- Cronfeydd Wrth Gefn

Cymeradwyodd y Cynghorydd Attridge yr argymhellion. Darparodd fanylion o sylw a wnaeth yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter ar effaith gronnol cynyddu rhent a taliadau gwasanaeth eraill. I denantiaid sy'n gweld hi'n anodd, gan gynnwys preswylwyr mewn tai gwarchod, rhoddwyd sicrwydd gan y Prif Swyddog y byddai'r ffioedd hynny'n cael eu talu gan fudd-daliadau tai. Gwnaed llawer o waith dros y blynyddoedd i sicrhau bod tenantiaid yn cael gwerth am arian, a oedd yn braf gweld.

Eiliodd y Cynghorydd Dave Hughes yr argymhelliad a dywedodd ei fod yn falch o beth sydd wedi cael ei gyflawni a byddai swyddogion yn parhau i adeiladu ar lefelau presennol yr uchelgais. Gosodwyd y polisi rhenti gan LC am 5 mlynedd, a dyma oedd yr uchafswm a ellir ei godi, a byddai landlordiaid yn ystyried gwerth am arian ynghyd â fforddiadwyedd i denantiaid, gan ystyried costau byw mewn eiddo yn llawn fel rhan o'r rhesymeg dros osod cynnydd mewn ffioedd rhenti.

Rhoddodd y Cynghorydd Peers sylw ar Grynodeb y Cynllun Busnes 30 Blynedd a oedd wedi ei atodi i'r adroddiad a dywedodd, yn 2020/21, roedd gwariant yn 65% o'r incwm, gan gynyddu ym mlwyddyn 10 i 67% o'r incwm. Gofynnodd sut oedd hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru. Dywedodd y Prif Swyddog pan fydd y wybodaeth honno ar gael, byddai'n cael ei rhannu gydag Aelodau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Carver, cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid mai'r cynnydd trosiannol i denantiaid a oedd o dan rhent targed ar hyn o bryd oedd £2 yr wythnos, fel yr oedd wedi bod yn y blynyddoedd blaenorol.

Gwnaeth y Cynghorydd Richard Jones sylw ar y sawl oedd yn gweld hi'n anodd parcio ceir mewn llety gwarchod, oherwydd nid y preswylwyr hŷn oedd o hyd yn defnyddio'r fath lety. Awgrymodd y dylid ystyried buddsoddiad mewn meysydd parcio.

Dywedodd y Prif Swyddog bod adolygiad o llety gwarchod yn cael ei gynnal, gan gynnwys yn y cyd-destun ehangach. Roedd parcio ceir hefyd yn cael ei drin dan Safon Ansawdd Tai Cymru, a matrics gwerthusiad manwl wedi cael ei gymeradwyo yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter i'r hyn oedd ei angen a sut y gellir ei ddarparu mewn mannau amrywiol.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Hinds ar ffioedd dŵr nawr yn cael eu codi'n uniongyrchol ar breswylwyr, esboniodd y Prif Weithredwr bod hyn wedi bod yn ofyniad penodol gan y cwmni dŵr a'i fod allan o reolaeth y Cynghorau. Dywedodd y Cynghorydd Gay ei bod wedi mynd i sesiwn galw heibio, ac wedi cael ei hysbysu gan y cwmni dŵr; drwy filio tenantiaid yn uniongyrchol, y byddai'n galluogi i breswylwyr gael cymorth mynediad gan nifer o gynlluniau; petai'r bilio yn cael ei barhau drwy'r awdurdod lleol, ni fyddai'r dewisiadau hyn ar gael i denantiaid.

Croesawodd y Cynghorwyr Palmer a Rosetta Dolphin y gwaith sy'n cael ei gynnal ar eiddo'r Cyngor fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru.

O ran parcio ceir, gofynnodd y Cynghorydd Ellis a oedd cydweithwyr yn yr adran Tai a Phriffyrdd wedi cydweithio, gan gyfeirio at enghraifft lle dywedwyd

wrthi nad oedd cynllun wedi sgorio ddigon uchel ar gyfer mannau parcio preswylwyr yn unig pan roedd y ffordd dan sylw gyferbyn ag ysgol ac yn achosi problem bob dydd.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Cynllun Busnes Ariannol 30 Blynedd Y Cyfrif Refeniw Tai (HRA).

## 96. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2019/20. Roedd crynodeb o bwyntiau allweddol i'w gweld yn yr adroddiad.

Derbyniodd Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio gopi o'r adroddiad ar 20 Tachwedd, ac fe'i argymhellwyd i'r Cabinet. Derbyniodd y Cabinet yr adroddiad Canol Blwyddyn ar 17 Rhagfyr, 2019, a'i argymell i'r Cyngor i'w gymeradwyo.

Cynigiodd y Cynghorydd Banks gymeradwyo'r argymhellion ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Chris Dolphin.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers am wybodaeth ychwanegol ar y ddau fenthyciad tymor hir newydd sydd wedi cael eu cymryd gan y Bwrdd Benthyciadau Gweithiau Cyhoeddus yn 2019/20. Esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod angen benthyg i noddi'r Rhaglen Gyfalaf, ac y gallai ddarparu manylion pellach os oes angen. Roedd cyfraddau llog gan llywodraeth ganolog yn isel, a oedd yn golygu bod gosod ad-daliadau tymor hir yn cynnig gwerth ariannol i'r Cyngor.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2019/20.

## 97. BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a oedd yn crynhoi darpariaethau'r Bil a manylion ymatebion y Cyngor. Cafwyd trafodaethau ar sawl agwedd o'r Bil yn flaenorol gan Aelodau yn ystod eu camau drafft.

Wedi'i atodi i'r adroddiad oedd papurau Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel corff cynrychioli'r Cyngor.

Cefnogodd y Cynghorydd Roberts farn CLILC a'r safle blaenorol fel yr amlinellwyd gan y Cyngor, a ddylai ffurfio sail i'r ymateb, a eiliwyd gan y Cynghorydd Carolyn Thomas. Dywedodd y byddai angen mynd i'r afael ag agweddau penodol pan cafodd y Bil ei gyhoeddi. Roedd yn croesawu darpariaeth

yn y Bil a fyddai'n caniatáu i bobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed bleidleisio, yn benodol.

Roedd y Cynghorydd Bithell yn cytuno gyda sylwadau'r Arweinydd a dywedodd y byddai'n croesawu'r agwedd o gyflwyno addysg wleidyddol mewn ysgolion.

Dywedodd y Cynghorydd Tudor Jones bod Sir y Fflint yn awdurdod lleol blaengar, a oedd wedi cael ei brofi yn Siambr y Cyngor drwy gydol y prynhawn. Fodd bynnag, mynegodd ei bryderon petai'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo heddiw, y byddai'n atal y cyngor rhag rhoi sylwadau ar y system bleidleisio yn y dyfodol. Cefnogodd ymestyn y bleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed, ond dywedodd y byddai disgwyl defnyddio dwy system bleidleisio ar wahân. Cytunodd gyda'r system bleidleisio drosglwyddadwy ond rhoddodd sylw ar y system ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir pan mai'r sawl sy'n derbyn mwyafrif y pleidleisiau sy'n ennill. Fodd bynnag, roedd gan rhai o'r seddi hynny fwyafrif isel iawn, er enghraifft, Cynghorydd yn cael ei ethol gyda 24% o'r bleidlais; teimlodd y byddai hyn yn anodd ei esbonio i bobl ifanc. Byddai pleidlais sengl drosglwyddadwy yn gweld cyflawni mwyafrif o 50%. Nid oedd yn teimlo y dylai'r Cyngor alinio ei hun i farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

Dywedodd y Prif Weithredwr bod hwn yn bwnc a oedd yn ysgogi ystod eang o farn yn Siambr y Cyngor yn ogystal â CLlLC. Roedd CLlLC a'r Cyngor yn credu y dylid cael system bleidleisio unffurf i bob awdurdod lleol ni waeth pa system bleidleisio a ddefnyddiwyd, a fyddai o gymorth i osgoi dryswch. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod yn anghytuno gyda'r farn honno, oherwydd bydd pobl yn cymryd sylw o'r system sydd ar waith lle maent yn byw yn unig.

Gwnaeth y Cynghorydd Richard Jones sylw ar y newid yn enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a dywedodd ei fod yn teimlo y dylai adrodd mesurau perfformio aros yr un fath, sef yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Esboniodd y Prif Weithredwr y gallai dau Bwyllgor weithredu swyddi tebyg a byddai ystyriaeth bellach yn cael ei roi i elfen honno'r Bil.

Dywedodd y Cynghorydd Roberts y byddai trafodaeth yn cael ei chynnal ar y system bleidleisio unwaith mae'r Bil wedi cael ei gyhoeddi.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r Cyngor yn ymateb i Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), gan adeiladu ar safleoedd sydd eisoes wedi cael eu cymryd ac alinio gyda safle a Barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 98. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad Penodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau, ac ar ôl dilyn y broses recriwtio ar gyfer swydd wag, argymhellwyd bod Mr Mark Morgan yn cael ei benodi.

Gellir penodi Aelod Annibynnol ar gyfer rhwng 4 a 6 mlynedd yn eu tymor cyntaf, ac os ydynt yn cael eu hail-benodi, am uchafswm o bedair blynedd yn eu hail dymor. Er mwyn gwasgaru dyddiadau ymddeol Aelodau Annibynnol, awgrymodd swyddogion bod Mr Morgan yn cael ei benodi am y cyfnod hiraf yn ei dymor cyntaf a nes 27 Ionawr, 2026.

Cynigiodd y Cynghorydd Woolley gymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Paul Johnson.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi Mark Morgan i'r Pwyllgor Safonau nes 27 Ionawr, 2026.

**99. RHYBUDD O GYNNIG**

Cyn cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig, esboniodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod ymateb i'r Rhybudd o Gynnig wedi cael ei dderbyn gan Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac y byddai'n ei ddarllen unwaith y cyflwynwyd y Rhybudd.

Esboniodd y Cynghorydd Attridge bod y Rhybudd o Gynnig yn enw ei hun, a'r Cynghorwyr Brown, Ellis a Hardcastle.

Cyflwynodd y Cynghorydd Ellis y Rhybudd o Gynnig fel y ganlyn:

"Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am eu gofal o gleifion a staff. Ar ôl sawl blwyddyn mewn Mesurau Arbennig, mae'r argyfwng gydag Ysbytai Rhanbarthol yn parhau i fod yn bryder.

Nid yw oedi o ddeuddeg awr yn Maelor Wrecsam yn anarferol, dyma'r amser aros normal. Mae pobl yn gorwedd ar droli yn aros i fynd ar wardiau yn normal. Mae aros am wely i symud cleifion allan o'r Uned Damweiniau Brys i'r wardiau yn amhosib oherwydd nid oes gwelyau. Dim gwelyau, dim cynfasau, dim clustogau, dim Meddygon, a thoriadau i Staff Nyrsio.

Mae staff dan bwysau cynyddol ac wedi cael eu clywed yn dweud eu bod yn ofni i'r sefyllfa waethygu oherwydd nid yw'r Ysbytai'n gallu ymdopi gyda'r niferoedd megis dau Feddyg i weld wythdeg claf yn yr Uned Damweiniau Brys, gyda niferoedd saff wedi gostwng o 15 i 12. Rydym yn teimlo bod pobl yn cael eu rhoi mewn perygl oherwydd y diffyg darpariaeth. Ni fydd Personél Ambiwlans yn gallu trosglwyddo cleifion i staff yr Uned Damweiniau Brys oherwydd nid oes lle.

Mae gan Sir y Fflint boblogaeth sy'n tyfu ac mae'r CDLl yn dangos y twf y gallwn ei ddisgwyl, fodd bynnag nid yw darpariaethau Iechyd yn gallu ymdopi, mae angen mwy o Feddygon Teulu, mwy o Nyrsys ac Ymgynghorwyr yn Sir y Fflint, a go brin y dyddiau hyn y dylai unigolyn sy'n sâl gael gwely a chlustog a blanced, a chael ei weld gan Feddyg o fewn amser rhesymol. Yn gryno, mae angen ei Ysbyty ei hun ar y Sir hwn."

Ychwanegodd, yn 2008 roedd sawl Aelod ar draws y Siambr wedi bod yn erbyn cyflwyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac wedi brwydro'n galed yn erbyn cau ysbytai cymunedol. Roedd y sefyllfa bresennol yn profi bod y farn honno'n gywir. Dywedodd bod BIPBC wedi bod dan fesurau arbennig am bron i 5 mlynedd, ei fod rhy fawr ac nid ellir ei reoli. Dywedodd ei bod wedi cael galwadau niferus gan breswylwyr ar draws y sir yn amlinellu eu profiadau a'u pryderon. Gwnaeth sylw ar leihau nifer y staff, y diffyg clustogau a blancedi, gwelyau ddim ar gael a darpariaeth sylfaenol o fwyd a diod ddim ar gael i bobl sydd wedi bod yn aros am hyd at 24 awr. Roedd yn teimlo bod preswylwyr Sir y Fflint yn cael eu gadael i lawr a galwodd am ysbyty o fewn y sir.

Siaradodd y Cynghorwyr Brown ac Attridge o blaid y farn a fynegwyd gan y Cynghorydd Ellis, gyda'r Cynghorydd Attridge yn darparu manylion o'i brofiadau personol ei hun yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Darllenodd y Dirprwy Swyddog Monitro ymateb BIPBC.

Dywedodd y Cynghorydd Roberts ei fod yn bryderus clywed enghreifftiau gan y Siambr a cytunodd bod perfformiad BIPBC yn gwaethygu. Cynigodd ddiwygiad i'r Rhybudd o Gynnig, i dynnu'r geiriau "Yn gryno, mae angen ei Ysbyty ei hun ar y Sir hwn" o'r frawddeg olaf, ac ychwanegu'r canlynol:

**Wrth ymateb i'r Rhybudd o Gynnig hwn, gallwn adnabod bod y materion hyn yn gallu bod yn emosiynol. Rydym yn ymwybodol bod y gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau mawr, ac mae angen cefnogaeth arnynt. Ond, mae rhai cwestiynau sylfaenol sydd nawr angen eu gofyn.**

**Dylai Cyngor Sir y Fflint alw ar Lywodraeth Cymru ar frys i adolygu'r materion canlynol:**

1. **Oes digon o le yn ysbytai Maelor Wrecsam, Glan Clwyd ac Iarlles Caer?**
2. **Oes angen Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ei hun ar Sir y Fflint?**
3. **Pam bod perfformiad yr Uned Damweiniau Brys mor wael ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr o'i gymharu gyda gweddill Cymru?**
4. **Pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i wella perfformiad yr Unedau Damweiniau Brys mewn argyfwng drwy ganolfannau galw heibio Meddygon Teulu, oriau ychwanegol mewn unedau mân anafiadau, gwell mynediad i Feddygon Teulu a gwasanaethau cymunedol gwell?**
5. **Beth yw'r lefel o fuddsoddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i gleifion yng Ngogledd Cymru i sefydlogi ac yna gwella'r perfformiad.**

**Rwy'n cynnig ein bod yn anfon y pryderon hyn yn syth at Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Eiliwyd y diwygiad gan y Cynghorydd McGuill. Derbyniodd y Cynghorydd Elis, fel cynigiwr y Rhybudd o Gynnig, y diwygiad a ddaeth yn Rhybudd o Gynnig cadarnhaol.

Siaradodd y Cynghorwyr Peers, Gladys Healey, Rosetta Dolphin, Andy Williams, Richard Jones, McGuill, Butler, Butler, Bithell, Hinds, Gay a Carver o blaid y Rhybudd o Gynnig gyda sawl un yn rhoi enghreifftiau o brofiadau personol.

Dywedodd y Cynghorydd McGuill bod y problemau wedi cychwyn gyda phobl methu cael mynediad at apwyntiadau Meddyg Teulu ac awgrymodd bod BIPBC yn edrych ar y darpariaethau o fewn ysbytai cymunedol yn yr Wyddgrug, Treffynnon a Glannau Dyfrdwy ac ystyried eu cadw ar agor o 7am - hanner nos, 7 diwrnod yr wythnos gyda chyfleusterau pelydr-x ar gael ymhob un. Cynghorodd Aelodau bod cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar 10 Chwefror lle byddai BIPBC yn bresennol. Anogodd Aelodau i anfon unrhyw gwestiynau ymlaen ati, fel y gellir eu hystyried yn y cyfarfod.

Esboniodd y Prif Weithredwr mai’r rheswm yn bennaf dros cynnal y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd arbennig oedd yn dilyn problemau’r flwyddyn flaenorol gyda threfniadau dan gontract gydag Ysbyty Iarlles Caer. Ers derbyn y Rhybudd o Gynnig, gofynnwyd i BIPBC fynd i’r afael â’r pryderon yn yr un cyfarfod. Ar gyfer y cyfarfod hwnnw, awgrymodd rhoi'r canlynol ar y rhaglen:

(1) rhoi sicrwydd dros drefniadau dan gontract gydag Ysbyty Iarlles Caer a pharhad gwasanaeth;
(2) ymateb i'r Rhybudd o Gynnig sy'n cael ei ystyried heddiw; ac
(3) ystyried y cwestiynau sy’n cael eu cyflwyno gan Aelodau cyn y cyfarfod.

Gallai’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd drafod y sefyllfa dros sawl cyfarfod ac yna llunio adroddiad i’w anfon i BIPBC ac yna’r Gweinidog.

Pleidleisiwyd o blaid y Rhybudd o Gynnig diwygiedig, yn unol â'r isod.

**ARGYFWNG BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR (BIPBC)**

**Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am eu gofal o gleifion a staff. Ar ôl sawl blwyddyn mewn Mesurau Arbennig, mae’r argyfwng gydag Ysbytai Rhanbarthol yn parhau i fod yn bryder.**

**Nid yw oedi o ddeuddeg awr yn Maelor Wrecsam yn anarferol, dyma'r amser aros normal. Mae pobl yn gorwedd ar droli yn aros i fynd ar wardiau yn normal. Mae aros am wely i symud cleifion allan o’r Uned Damweiniau Brys i’r wardiau yn amhosib oherwydd nid oes gwelyau. Dim gwelyau, dim cynfasau, dim clustogau, dim Meddygon, a thoriadau i Staff Nyrsio.**

**Mae staff dan bwysau cynyddol ac wedi cael eu clywed yn dweud eu bod yn ofni i'r sefyllfa waethygu oherwydd nid yw'r Ysbytai'n gallu ymdopi gyda'r niferoedd megis dau Feddyg i weld wythdeg claf yn yr Uned Damweiniau Brys, gyda niferoedd saff wedi gostwng o 15 i 12. Rydym yn teimlo bod pobl yn cael eu rhoi mewn perygl oherwydd y diffyg darpariaeth. Ni fydd Personél Ambiwlans yn gallu trosglwyddo cleifion i staff yr Uned Damweiniau Brys oherwydd nid oes lle.**

**Mae gan Sir y Fflint boblogaeth sy'n tyfu ac mae'r CDLl yn dangos y twf y gallwn ei ddisgwyl, fodd bynnag nid yw darpariaethau Iechyd yn gallu ymdopi, mae angen mwy o Feddygon Teulu, mwy o Nyrsys ac Ymgynghorwyr yn Sir y Fflint, a go brin y dyddiau hyn y dylai unigolyn sy'n sâl gael gwely a chlustog a blanced, a chael ei weld gan Feddyg o fewn amser rhesymol.**

**Wrth ymateb i'r Rhybudd o Gynnig hwn, gallwn adnabod bod y materion hyn yn gallu bod yn emosiynol. Rydym yn ymwybodol bod y gwasanaethau cyhoeddus dan bwysau mawr, ac mae angen cefnogaeth arnynt. Ond, mae rhai cwestiynau sylfaenol sydd nawr angen eu gofyn.**

**Dylai Cyngor Sir y Fflint alw ar Lywodraeth Cymru ar frys i adolygu'r materion canlynol:**

1. **Oes digon o le yn ysbytai Maelor Wrecsam, Glan Clwyd ac Iarlles Caer?**
2. **Oes angen Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ei hun ar Sir y Fflint?**
3. **Pam bod perfformiad yr Uned Damweiniau Brys mor wael ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr o'i gymharu gyda gweddill Cymru?**
4. **Pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i wella perfformiad yr Unedau Damweiniau Brys mewn argyfwng drwy ganolfannau galw heibio Meddygon Teulu, oriau ychwanegol mewn unedau mân anafiadau, gwell mynediad i Feddygon Teulu a gwasanaethau cymunedol gwell?**
5. **Beth yw'r lefel o fuddsoddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i gleifion yng Ngogledd Cymru i sefydlogi ac yna gwella'r perfformiad.**

**Rwy'n cynnig ein bod yn anfon y pryderon hyn yn syth at Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.**

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Cefnogi'r Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorwyr Attridge, Brown, Ellis a Hardcastle, sy'n cynnwys y diwygiad a gynhigiodd y Cynghorydd Roberts.

## 100. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

**101. CWESTIYNAU**

Dim.

**102. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.30 p.m. a daeth i ben am 6.08 p.m.)

..................................................

**Y Cadeirydd**